


Gwasanaeth Tân ac Achub
Canolbarth a Gorllewin Cymru

Mid and West Wales
Fire and Rescue Service

# Adroddiad Blynyddol Dyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol

2025/2026 – Atodiad 1

www.tancgc.gov.uk

This document is also available in English

**Cyflwyniad**

Mae Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023 (SPPP), a ddaeth i rym ar 01 Ebrill 2024, yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru (ATACGC), fel corff cyhoeddus, gynhyrchu adroddiad blynyddol i ddangos sut mae wedi cydymffurfio â'r Ddyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol.

Mae'r adroddiad blynyddol yn crynhoi sut mae'r Awdurdod wedi cydymffurfio â'r ddyletswydd ac y mae'n rhaid ei gyflwyno i'r Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol ("CPG") ar gyfer craffu. Mae Adran 18 Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) yn nodi:

Adroddiadau Partneriaeth Gymdeithasol:
(1) Rhaid i gorff cyhoeddus lunio, mewn cysylltiad â phob blwyddyn ariannol, adroddiad ynglŷn â'r hyn y mae wedi ei wneud i gydymffurfio â'r ddyletswydd.
(2) Rhaid cytuno ar yr adroddiad gydag undebau llafur cydnabyddedig y corff cyhoeddus neu (pan nad oes undeb llafur cydnabyddedig) gynrychiolwyr eraill ei staff, neu rhaid i'r adroddiad gynnwys datganiad yn egluro pam na chytunwyd arno.
(3) Rhaid i'r corff cyhoeddus gyhoeddi'r adroddiad, a'i gyflwyno i'r CPG, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol.

Mae Deddf SPPP yn ceisio gwella lles economaidd, cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol pobl yng Nghymru drwy gryfhau rôl partneriaeth gymdeithasol o fewn y broses o wneud penderfyniadau strategol, drwy gydweithio â'r holl randdeiliaid perthnasol, hyrwyddo gwaith teg a chaffael cyhoeddus sy'n gyfrifol yn gymdeithasol. Y bwriad yw iddo ategu deddfwriaeth arall, gan gynnwys y Ddyletswydd economaidd-gymdeithasol a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn gosod dyletswydd llesiant ar gyrff cyhoeddus rhestredig ledled Cymru i gynnal datblygu cynaliadwy. Wrth wneud hynny, rhaid i gyrff cyhoeddus osod a chyhoeddi amcanion llesiant sydd wedi'u cynllunio i wneud y cyfraniad mwyaf posibl tuag at y nodau llesiant cenedlaethol a chymryd pob cam rhesymol i gyflawni'r amcanion hynny a osodwyd.

Wrth gyflawni datblygu cynaliadwy, bydd yn ofynnol i'r cyrff cyhoeddus a restrir o dan adran 6(1) Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, i'r graddau y mae'n rhesymol, geisio consensws neu gyfaddawd â'u hundebau llafur cydnabyddedig, wrth osod eu hamcanion llesiant a gwneud penderfyniadau o natur strategol ynghylch y camau rhesymol y maent yn bwriadu eu cymryd i gyflawni'r amcanion hynny a osodwyd.

Mae adran 16(2) y Ddeddf yn nodi sawl gofyniad penodol sy'n ymwneud â'r Ddyletswydd, y mae'n rhaid i ATACGC gydymffurfio â nhw wrth 'geisio consensws neu gyfaddawd'. Bwriad y gofynion yw sicrhau bod undebau llafur yn cymryd rhan yn llawn ac yn briodol pan fydd corff cyhoeddus yn gosod ei amcanion llesiant, neu wrth wneud penderfyniadau strategol.

Mae'r Ddeddf yn nodi, er mwyn ceisio consensws neu gyfaddawd, fod yn rhaid i gorff cyhoeddus gynnwys ei undebau llafur cydnabyddedig neu gynrychiolwyr eraill o'i staff yn y broses o osod amcanion neu wneud penderfyniadau, trwy (yn benodol): -

a) Ymgynghori â nhw ar gam ffurfiannol y broses, a
b) Fel arall, eu cynnwys trwy gydol y broses drwy:

(i) Roi digon o wybodaeth i'w galluogi i ystyried yn iawn yr hyn a gynigir, a
(ii) Rhoi digon o amser i'w galluogi i ystyried yn ddigonol yr hyn a gynigir ac ymateb.

**Tystiolaeth ategol o sut mae Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru wedi cydymffurfio â'r Ddyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol.**

Mae'n werth nodi mai rôl ATACGC yw darparu gwasanaethau ataliol rhagweithiol; a gwasanaethau tân ac achub adweithiol i bobl canolbarth a gorllewin Cymru mewn ffordd agored, dryloyw a chost-effeithiol; gweithredu er budd gorau canolbarth a gorllewin Cymru a'i chymunedau.

Wrth gyflawni ei rôl, mae ATACGC yn ceisio gweithredu er lles ehangach ei holl Awdurdodau Cyfansoddol a'u cymunedau. Gan weithredu o fewn fframwaith a osodwyd gan ddeddfwriaeth Genedlaethol y DU a Llywodraeth Cymru, mae'r Awdurdod Tân yn cyflawni ei swyddogaethau drwy weithio mewn partneriaeth â'r Awdurdod Tân, ei Aelodau a'i Swyddogion, gan weithredu o dan arweiniad y Prif Swyddog Tân.

Mae’r gwaith dirprwyedig o reoli a chyflawni swyddogaethau'r Gwasanaeth Tân o ddydd i ddydd yn cael ei gyflawni gan Swyddogion o dan reolaeth ac arweiniad cyffredinol y Prif Swyddog Tân, sy'n cyflawni'r swyddogaethau hyn yn unol â'r fframwaith polisi a phenderfyniadau'r Awdurdod Tân a'i Bwyllgorau. Wrth wneud hynny, mae'r Prif Swyddog Tân yn cael ei gynorthwyo gan y Tîm Arweinyddiaeth Weithredol.

Gwasanaeth Tân Canolbarth a Gorllewin Cymru (GTACGC) yw'r gangen weithredol sy'n gyfrifol am ddarparu gwasanaethau diffodd tân, achub ac atal tân ledled y rhanbarth. Dyma'r corff sy'n cyflawni'r gwaith o ddydd i ddydd o ymateb i argyfyngau, cynnal arolygiadau diogelwch tân, a chymryd rhan mewn mentrau diogelwch cymunedol.

**Cynllun Rheoli Risg Cymunedol (CRhRC) 2040**

Gan gydnabod yr angen i gynllunio ar gyfer y tymor hwy, diwygiodd y Gwasanaeth ei drefniadau cynllunio ac arweiniodd hyn at gyflwyno Cynllun Rheoli Risg Cymunedol tymor hwy (CRhRC 2040). Fel rhan o ddatblygiad CRhRC 2040, nodwyd undebau llafur fel budd-ddeiliad allweddol a gwahoddwyd hwy i ddiwrnodau Cynllunio Cyllideb Corfforaethol, lle cyflwynwyd trosolwg o CRhRC drafft 2040 a'i Amcanion Gwella a Llesiant cysylltiedig, gan y Dirprwy Brif Swyddog Tân, i'w hystyried a chael adborth ganddynt. Gwahoddwyd cynrychiolwyr yr Undebau Llafur hefyd i gyfarfod yr Awdurdod Tân a gynhaliwyd ar 25 Mawrth 2024 lle cyflwynwyd CRhRC 2040 i'w gymeradwyo'n derfynol, cyn ei gyhoeddi.

Cynhaliwyd cyfarfodydd Cynllunio Cyllideb Corfforaethol ar gyfer y cyfnod adrodd hwn ddydd Llun, 02 Medi, dydd Llun, 08 Medi a dydd Llun, 10 Tachwedd 2025, ac mae gwahoddiad i gynrychiolwyr Undebau Llafur fod yn bresennol.

Cynhaliwyd ymgynghoriad cynhwysfawr ac ymarfer ymgysylltu i helpu i ddatblygu'r CRhRC, y gwahoddwyd cynrychiolwyr undebau llafur i gymryd rhan ynddo a rhoi adborth arno yn ystod

yr ymgynghoriad 10 wythnos a gynhaliwyd rhwng Tachwedd 2023 a Ionawr 2024. Ystyriwyd yr ymatebion yn llawn, ac adolygwyd a diwygiwyd pob Amcan Gwella a Llesiant yn unol â hynny i adlewyrchu'r adborth a gafwyd cyn y cyhoeddiad terfynol.

Fel rhan o Amcan Gwella a Llesiant 6, ymgysylltu ac ymgynghori â chymunedau i ddeall eu disgwyliadau, cynhwyswyd cam gweithredu i ymgysylltu ag undebau llafur yn unol â dyletswyddau'r Bartneriaeth Gymdeithasol ynghylch newid sefydliadol. Adroddir ar ei gynnydd bob chwarter.

Yn dilyn cyflwyno CRhRC 2040, sefydlwyd dull newydd o fonitro perfformiad trwy greu Grwpiau Monitro Perfformiad, un ar gyfer pob Amcan Gwella a Llesiant. Nod y grwpiau hyn yw sicrhau gwelliant parhaus, monitro cynnydd a chraffu ar gyflawniad camau gweithredu'r Amcan Gwella a Llesiant. Mae'r grwpiau'n cyfarfod bob chwarter a gwahoddir cynrychiolwyr undebau llafur i bob cyfarfod.

Yn ogystal â Grwpiau Monitro Perfformiad CRhRC 2040, sefydlwyd Bwrdd Cyflawni Rheoli Risg Cymunedol (CRMDB) dan gadeiryddiaeth y Prif Swyddog Tân. Mae'r CRMDB yn monitro cyflawniad y perfformiad a wneir yn erbyn pob un o'r Amcanion Gwella a Llesiant, gan sicrhau:

- Bod yr holl weithgareddau'n cael eu gweithredu yn unol â'r CRhRC 2040.
- Monitro a chraffu ar berfformiad a gwneud penderfyniadau ar faterion a uwch-gyfeirir.
- Bod adnoddau'n cael eu dyrannu'n effeithlon ac yn effeithiol.
- Bod risgiau a materion yn cael eu nodi a'u lliniaru, gan sicrhau bod camau cywiro yn cael eu cymryd pan fo angen.
- Bod disgwyliadau rhanddeiliaid yn cael eu rheoli a bod dangosyddion perfformiad allweddol wedi'u bodloni.
- Darparu goruchwyliaeth a llywodraethiant strategol.
- Ystyrir nodi unrhyw themâu trawsbynciol a rhyngddibyniaethau ag amcanion eraill.

Gwahoddir cynrychiolwyr undebau llafur i fynychu cyfarfodydd CRMDB, gan ganiatáu iddynt dderbyn yr wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd sy'n cael ei wneud o ran cyflawni CRhRC 2040 a'i Amcanion Gwella a Llesiant cysylltiedig. Cynhaliwyd cyfarfodydd CRMDB ar gyfer y cyfnod adrodd hwn ddydd Mercher, 18 Mehefin 2025, dydd Mercher, 17 Medi 2025 a dydd Mercher, 17 Rhagfyr 2025, a dydd Mercher, 18 Mawrth 2026. Yn ogystal, mae ffrydio byw a recordiadau o gyfarfodydd CRMDB wedi parhau i ddigwydd, gan olygu bod modd cael y wybodaeth, os oes angen, y tu allan i'r cyfarfod.

**Adolygiad Amcanion a Chamau Gweithredu Blynyddol CRhRC 2040**

Fel rhan o CRhRC 2040 y Gwasanaeth, ac er mwyn sicrhau bod y cynllun yn parhau i fod yn addas i'r diben, cynhelir mân adolygiad blynyddol fel rhan o'r broses sicrwydd. Mae'r adolygiad hwn yn cadarnhau bod pob Amcan Gwella a Llesiant yn parhau i fod yn berthnasol, yn symud ymlaen yn ôl yr amserlen, ac yn parhau i gyd-fynd â blaenoriaethau'r Gwasanaeth ar y pryd.

Adolygwyd pob Amcan Gwella a Llesiant o fewn CRhRC 2040 gan ei Grŵp Monitro Perfformiad Amcan priodol, y mae cynrychiolwyr Undebau Llafur yn aelodau arno. Yn ogystal, rhannwyd yr holl wybodaeth a'r newidiadau arfaethedig drwy e-bost a Thimau MS i'w hystyried a chael adborth yn eu cylch, gan sicrhau bod barn yr holl fudd-ddeiliad perthnasol wedi'i chasglu.

## Fforwm Ymgynghorol ar y Cyd

Mae'r Fforwm Ymgynghorol ar y Cyd (JCF) yn fforwm mewnol, sy'n cynnwys cynrychiolwyr yr Awdurdod Tân, sef Cadeirydd a Dirprwy Gadeirydd yr Awdurdod, 2 Aelod o'r Pwyllgor Rheoli Adnoddau, Dirprwy Brif Swyddog Tân, fel pennaeth trafodaethau'r Gweithlu, 2 Brif Swyddog, Pennaeth Adnoddau Corfforaethol, Pennaeth Adnoddau Dynol, 3 chynrychiolydd Undeb y Brigadau Tân (FBU), 1 cynrychiolydd Unsain, 1 cynrychiolydd Gwneuthurwyr Boeleri Cyffredinol a Bwrdeistrefol (GMB), Cadeirydd ac Ysgrifennydd Cymdeithas y Gwasanaethau Tân ac Achub (FRSA) a Chadeirydd ac Ysgrifennydd Cymdeithas y Swyddogion Tân (FOA).

Mae'r JCF yn cyfarfod ddwywaith y flwyddyn ac yn darparu mecanwaith ar gyfer cyfathrebu gwybodaeth a syniadau rhwng Aelodau'r Awdurdod Tân, Swyddogion a chynrychiolwyr o bob sector gweithwyr. Yn ogystal, mae'r JCF yn rhoi cyfle i weithwyr trwy eu cynrychiolwyr fynegi eu barn ar gynigion a allai effeithio arnynt ac yn gweithredu fel corff datrys anghydfodau yn hyn o beth.

Mae'r fforwm hefyd yn gweithredu fel Corff Datrys Anghydfodau; yn darparu fforwm ar gyfer egluro polisïau a gweithdrefnau, yn darparu fframwaith i sicrhau y gosodir safonau cyffredin ac yn rhoi cyfle i weithwyr trwy eu cynrychiolwyr fynegi eu barn ar gynigion a allai effeithio arnynt.

Cynhaliwyd cyfarfodydd JCF ar gyfer y cyfnod adrodd ddydd Llun, 10 Chwefror 2025 a dydd Llun, 23 Chwefror 2026.

## Cyfarfodydd Rheolwyr y Gwasanaeth ac Undebau Llafur

Mae cyfarfodydd rhwng Rheolwyr y Gwasanaeth a chynrychiolwyr Undeb y Brigadau Tân yn digwydd bob chwarter, er mwyn trafod ac ymgynghori. Trefnir cyfarfodydd ad hoc hefyd, mewn cytundeb â'r ddwy ochr, i drafod materion arwyddocaol.

Mae rolau Undeb y Brigadau Tân (Cadeirydd, Ysgrifennydd a Threfnydd) yn cael eu cyflawni gan unigolion o fewn Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru (GTACGC) fel elfennau ychwanegol yn ogystal â'u rôl o ddydd i ddydd. I gydnabod yr ymrwymiad sydd ei angen ar gyfer ymgymryd â'r rolau hyn, rhoddwyd cyfle am secondiad i'r unigolyn a oedd yn ymgymryd â rôl ysgrifennydd Undeb y Brigadau Tân, gan ganiatáu iddynt ganolbwyntio'n llwyr ar faterion undeb. Roedd dau reswm am hyn, tynnwyd sylw at y ffaith bod swyddi gwag o fewn swyddi'r Cadeirydd a'r Trefnydd ac roedd y Gwasanaeth yn ymwybodol o'r llwyth gwaith ar un unigolyn. Roedd trafodaethau ynghylch newid shifftiau hefyd yn cael eu cynnal ac roedd y Gwasanaeth eisiau sicrhau bod Undeb y Brigadau Tân yn cael digon o amser i siarad â'u haelodau am y newid arfaethedig.

Cynhaliwyd cyfarfodydd rhwng rheolwyr y gwasanaeth ac Undeb y Brigadau Tân ar gyfer y cyfnod adrodd ar 27 Mawrth, 28 Ebrill, 17 Mehefin, 07 Tachwedd 2025 a 19 Mawrth 2026.

Cynhelir cyfarfodydd rhwng Rheolwyr Gwasanaethau a Chymdeithas y Gwasanaethau Tân ac Achub FRSA sy'n cynrychioli nifer sylweddol o ddiffoddwyr tân ar alwad ar draws GTACGC yn chwarterol, a chynhaliwyd cyfarfodydd ar 18 Mawrth, 19 Mehefin, 23 Medi 2025 a 26 Mawrth 2026.

Mae gwahoddiadau ar gyfer pwyntiau trafod yr Agenda yn cael eu rhoi i holl aelodau'r cyfarfod o leiaf wythnos cyn i gyfarfod gael ei gynnal. Cynhelir cyfarfodydd yn lleoliadau'r Gwasanaeth ledled y rhanbarth i gefnogi anghenion aelodau Ar Alwad sy'n dod iddynt. Cytunir ar gofnodion cyfarfodydd ar y cyd a chânt eu llofnodi gan Gadeirydd yr FRSA a'r Gwasanaeth.

Yr undebau llafur mwyaf cyffredin yn y sector Staff Cynnal y Gwasanaeth (Staff Corfforaethol) yw UNSAIN a GMB. Mae cyfarfodydd rhwng y rheolwyr a'r undebau llafur hyn yn digwydd bob chwarter, gyda gwahoddiadau ar gyfer pwyntiau trafod yr Agenda yn cael eu rhoi i holl aelodau'r cyfarfod wythnos cyn i gyfarfod ddigwydd. Cynhelir pob cyfarfod ym Mhencadlys y Gwasanaeth a chytunir ar gofnodion y cyfarfodydd ar y cyd a chânt eu llofnodi gan yr undebau llafur a'r Gwasanaeth.

Cynhaliwyd cyfarfodydd rhwng Rheolwyr y Gwasanaeth, Unsain a GMB ar gyfer y cyfnod adrodd ar 28 Ionawr, 21 Mai, 23 Gorffennaf, 23 Medi, 26 Tachwedd 2025 a 10 Mawrth 2026.

Cynhaliwyd cyfarfodydd rheoli'r gwasanaeth gyda chynrychiolwyr Undeb y Brigadau Tân yn yr Uned Rheoli Tân ar y Cyd (JFC) hefyd, ac mae Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru (SWFDS) hefyd yn mynychu'r rhain. Mae'r cyfarfodydd yn dilyn yr un fformat ac yn digwydd yr un mor aml â chyfarfodydd at ddibenion negodi ac ymgynghori ac fe'u cynhaliwyd fel a ganlyn ar gyfer y cyfnod adrodd hwn: 17 Mawrth, 25 Mehefin, 24 Medi a 26 Tachwedd 2025.

## Astudiaethau Achos

### Proses Ystafell Gytbwys ynghylch Tanau Gwyllt

Fel rhan o Gynllun Rheoli Risg Cymunedol (CRhRC) 2040 y Gwasanaeth a'i ymrwymiad i ymwneud â'r arfer gorau, cynhaliodd y Gwasanaeth gyfres o weithdai Ystafell Gytbwys i archwilio a dylunio atebion ar y cyd i risg ac effaith gynyddol tanau gwyllt.

Mae Ystafelloedd Cytbwys yn fforymau lle mae budd-ddeiliaid amrywiol, pob un yn dod â safbwyntiau, diddordebau a lefelau dylanwad gwahanol, yn cael eu cynrychioli'n gyfartal ac yn gallu cymryd rhan yn ystyrlon. Eu pwrpas yw meithrin deialog agored a sicrhau bod pob safbwynt yn cael ei ystyried.

Yn ystod y sesiynau hyn, bu'r cyfranogwyr yn archwilio lliniaru risg, trafod materion allweddol, a chynhyrchu rhestr anghyfyngedig o atebion posibl cyn eu mireinio i 3–5 cynnig a allai symud ymlaen i ymgynghoriad cyhoeddus ffurfiol. Ar draws dau weithdy wyneb yn wyneb a sesiwn ganlyniadau ar-lein a gynhaliwyd rhwng Awst a Hydref 2025, datblygodd budd-ddeiliaid ystod eang o syniadau ar y cyd a brofwyd wedyn yn erbyn meini prawf craidd:

diogelwch diffoddwyr tân a chymunedau, cydymffurfiaeth gyfreithiol, a chynaliadwyedd ariannol. Daeth y sesiynau hyn â staff y gwasanaeth, partneriaid allanol, cynrychiolwyr undebau (FBU a FRSA), rheolwyr tir a lleisiau cymunedol ynghyd mewn amgylchedd diogel, cynhwysol a chyfartal, gan sicrhau cyfranogiad ystyrlon gan y rhanddeiliaid drwyddi draw.

Arweiniodd y broses gydweithredol hon at nodi pum maen prawf dymunol: Cydweithredu a Phartneriaeth, Atal yn Gyntaf, Gallu Arbenigol a Chysondeb, Dysgu a Gwelliant Parhaus, a Chyflwyno a Chysoni Polisi, a datblygwyd wyth opsiwn blaenoriaeth wedi'u cefnogi gan alluogwr trawsbynciol. Mae'r canlyniadau hyn yn cwmpasu atal, amddiffyn, ymateb ac adfer, ac yn cynnwys gwell cyfathrebu ac integreiddio data, gwell addysg gyhoeddus a chysylltu â'r cyhoedd, cysoni cymorthdaliadau rheoli tir, mwy o ddefnydd o dechnoleg a mapio, cryfhau'r ddarpariaeth Offer Gwarchod Personol a lles, timau tanau gwyllt arbenigol a cherbydau modiwlaidd, datblygu gallu diffodd tân o'r awyr, a chamau adfer strwythuredig ar ôl digwyddiadau.

Gyda'i gilydd, mae'r cynigion hyn sydd wedi'u cynllunio ar y cyd yn cynrychioli cam sylweddol ymlaen o ran llunio strategaeth tanau gwyllt arloesol, wedi ei seilio ar wybodaeth gan y rhanddeiliaid ar gyfer y Gwasanaeth.

**Proses Ystafell Gytbwys ynghylch Llifogydd**

Gan barhau â'r thema newid hinsawdd a chydnabod bod digwyddiadau llifogydd yn cynyddu o ran amlder a difrifoldeb oherwydd dwyster glawiad uwch a digwyddiadau tywydd mwy parhaus, cynhaliodd y Gwasanaeth gyfres o Weithdai Ystafell Gytbwys ddydd Gwener 23 Ionawr, dydd Iau 10 Chwefror, a dydd Mercher 25 Chwefror 2026. Cynlluniwyd y gweithdai hyn i gasglu safbwyntiau gweithredol, partneriaethol a chymunedol am yr heriau a'r cyfleoedd sy'n gysylltiedig ag ymateb i lifogydd a pharatoi ar eu cyfer.

Daeth y sesiynau â staff gweithredol ac ystod eang o fudd-ddeiliad allanol at ei gilydd, gan gynnwys Gwylwyr y Glannau Ei Fawrhydi, Cyfoeth Naturiol Cymru, Achub Mynydd, Achub Allgymorth, Iechyd Cyhoeddus Cymru, Cyngor Sir Penfro, Cyngor Sir Powys, cynghorwyr lleol ac undebau llafur, gan sicrhau dull cwbl gynrychioliadol a chydweithredol.

Roedd canlyniadau'r gweithdai'n dal i gael eu cwblhau ar yr adeg yr ysgrifennwyd yr adroddiad hwn.

**Diweddariad Cynnydd Diwylliant**

Mae Rhaglen Newid Diwylliant dwy flynedd y Gwasanaeth, a gyflwynir mewn partneriaeth â Senseia, yn parhau i symud ymlaen fel y cynlluniwyd. Mae'r rhaglen wedi'i strwythuro'n ddau gam allweddol sydd wedi'u cynllunio i gryfhau diwylliant sefydliadol, gwella gallu arweinyddiaeth a gwreiddio ymddygiadau cyson ar draws y Gwasanaeth.

**Camau'r Rhaglen**

- Cam 1 – Atgyweirio (hyd at Wanwyn 2026):
  Canolbwyntio ar wrando, deall, a sefydlu disgwyliadau clir ar draws y sefydliad.
- Cam 2 – Ailadeiladu (Gwanwyn 2026–Hydref 2027):
  Yn canolbwyntio ar ymgorffori safonau diwylliannol y cytunwyd arnynt mewn arferion

beunyddiol a sicrhau bod y rhain yn cael eu cynnal yn gyson.

**Cynnydd hyd yma**

- Mae dros 150 o staff wedi cymryd rhan mewn sesiynau dilysu.
- Mae gweithdai tri diwrnod a sesiynau hyfforddi 1:1 wedi'u cwblhau ar gyfer y Tîm Arweinyddiaeth Weithredol (ELT) a'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth (SLT).
- Mae gweithdai arweinyddiaeth wedi'u cyflwyno ar gyfer yr holl bersonél ar lefel Rheolwr Gwylfa ac uwch.
- Mae'r gweithdai rheoli sy'n weddill ar y trywydd iawn i'w cwblhau yn Chwarter 1, 2026.

**Camau Allweddol ar y gweill ar hyn o bryd**

- Datblygu cynllun gwella diwylliannol hirdymor y Gwasanaeth, gan ddiffinio diwylliant y dyfodol a'r ymddygiadau cysylltiedig.
- Adolygu a moderneiddio'r fframwaith Safonau Proffesiynol a'r prosesau disgyblu cysylltiedig.
- Ymgorffori'r Strategaeth Les, ynghyd â chyflawni'r Cynllun Gweithredu Lles i gryfhau cefnogaeth staff a lles sefydliadol.
- Adolygiad llawn o gylch bywyd y gweithwyr, gan gynnwys recriwtio, sesiwn gynefino, datblygu arweinyddiaeth, llwybrau gyrfa a rheoli perfformiad.
- Yn dilyn adolygu'r swyddogaeth Llinell Adrodd Annibynnol a chael ei wared yn sgil hynny, cyflwynwyd system adrodd gyfrinachol dros dro newydd ym mis Medi 2025 a bydd yn parhau i fod ar waith nes bod model adrodd hirdymor newydd yn cael ei gwblhau.

**Sesiynau Partneriaeth Gymdeithasol wedi'u hwyluso gyda Senseia ac Undebau Llafur**

Cynhaliwyd sesiynau Partneriaeth Gymdeithasol wedi'u hwyluso gyda Senseia, aelodau o'r Tîm Arweinyddiaeth Weithredol (ELT), a chynrychiolwyr yr Undebau Llafur ddydd Gwener, 06 Chwefror a 05 Mawrth 2026. Yr uchelgais yw bod y gwaith partneriaeth cyfunol hwn yn arwain at greu Siarter wedi'i lofnodi rhwng ELT a'r Undebau Llafur sy'n paratoi'r ffordd ar gyfer ymagwedd mwy gafaelgar a chynhwysol at bartneriaethau undebau llafur yn y gweithle o fewn y Gwasanaeth.

**Siarter Gwaith Teg – Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion (BGC)**

Fel rhan o Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion, llofnododd y Gwasanaeth y Siarter Gwaith Teg, gan ddangos ymrwymiad ar y cyd y BGC i hyrwyddo egwyddorion gwaith teg ledled Ceredigion.

**Sylwadau gan yr Undebau Llafur mewn ymateb i adroddiad y Ddyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol.**

**Unsain**

Derbyniwyd y sylwadau isod gan Unsain.

*Rwyf wedi darllen yr adroddiad a gallaf gadarnhau ei fod yn gywir. Does gen i ddim i'w ychwanegu.*

**Adborth a dderbyniwyd gan gynrychiolydd undeb y Gweithwyr Cyffredinol a Bwrdeistrefol a’r Gwneuthurwyr Boeleri (GMB).**

Derbyniwyd y sylwadau isod gan GMB.

*Rydw i bellach wedi cael y cyfle i ddarllen trwy'r ddogfen ac wedi gweld ei bod yn fanwl iawn, yn glir ac yn gywir. Rwy'n hapus â hi fel y'i cyflwynwyd ac nid oes gennyf unrhyw sylwadau pellach i'w ychwanegu.*

**Adborth a dderbyniwyd gan gynrychiolydd Cymdeithas y Gwasanaethau Tân ac Achub (FRSA).**

Derbyniwyd y sylwadau isod gan yr FRSA.

*Rwy'n canmol y ffordd y mae'r adroddiad wedi'i ysgrifennu a'i gyflwyno, sy'n welliant enfawr i'r hyn rwy'n ei gofio y llynedd, gan ei fod yn llawer mwy manwl ac yn nodi'n glir lle mae'r Gwasanaeth wedi rhoi cyfle i undebau llafur ryngweithio a bod yn rhan o gamau gweithredu a phenderfyniadau allweddol mewn perthynas â CRhRC 2040.*

*Rwy'n teimlo bod hyn yn ein gwreiddio ni (FRSA) mewn sefyllfa i roi mewnbwn cadarnhaol i Amcanion CRhRC a sut rydym yn symud ymlaen ac yn gwneud cynnydd fel un Gwasanaeth, gyda meddylfryd tryloyw a diwylliannol i ddarparu'r FRS y mae'r cyhoedd a'r gweithwyr yn ei ddisgwyl yn y blynyddoedd i ddod.*

*Wedi cymryd rhan fawr mewn nifer o gyfarfodydd am Amcanion CRhRC dros y flwyddyn ddiwethaf, rwy'n fwy na hapus gydag Adroddiad y Ddyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol a sut mae'r Gwasanaeth wedi rhyngweithio â ni (FRSA) fel undeb llafur.*

**Undeb y Brigadau Tân**

Cafwyd y sylwadau isod gan Undeb y Brigadau Tân.

*Mae Pwyllgor Brigâd Undeb y Brigadau Tân yn croesawu'r cyfle i ymateb i Adroddiad Blynyddol Dyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru ar gyfer 2025/26.*

*Er bod yr adroddiad yn amlinellu ystod o fecanweithiau a gweithgareddau sydd â'r bwriad o ddangos cydymffurfiaeth â Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023, nid yw profiad byw cynrychiolwyr ac aelodau Undeb y Brigadau Tân yn cyd-fynd â'r darlun a gyflwynir. Felly, rydym yn teimlo ei bod yn angenrheidiol rhoi cyfrif clir a gonest o'r heriau yr ydym wedi'u hwynebu wrth geisio ymgysylltu'n ystyrlon â'r Gwasanaeth o dan egwyddorion partneriaeth gymdeithasol.*

***1. Yn aml nid yw ymgysylltu yn ffurfiannol, yn amserol, nac yn ystyrlon***

*Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus:*

*"Ymgynghori ar gam ffurfiannol, rhoi digon o wybodaeth a digon o amser i alluogi undebau llafur cydnabyddedig i ystyried yn ddigonol yr hyn sy'n cael ei gynnig ac ymateb."*

*Fodd bynnag, mae Undeb y Brigadau Tân wedi profi'r gwrthwyneb dro ar ôl tro. Er bod yr adroddiad yn nodi bod undebau llafur yn cael eu "gwahodd i fynychu" amrywiol gyfarfodydd a fforymau, nid yw mynychu'n unig yn gyfystyr ag ymgysylltiad ystyrlon. Yn ymarferol:*

- *Rydym yn aml yn cael ein hysbysu am gynigion ar ôl i benderfyniadau allweddol gael eu llunio eisoes.*
- *Mae gwybodaeth yn aml yn gyfyngedig, yn hwyr neu'n anghyflawn, gan gyfyngu ar ein gallu i ymgynghori ag aelodau.*
- *Mae'r amserlenni ar gyfer ymateb wedi'u cywasgu, gan wneud ymgynghori ystyrlon yn amhosibl.*
- *Mae llais y gweithlu yn cael ei drin fel ôl-ystyriaeth yn hytrach na phartner wrth lunio penderfyniadau.*

*Mae hyn yn gwrth-ddweud yn uniongyrchol ddatganiad y Gwasanaeth ei hun ei fod yn "ceisio consensws neu gyfaddawd" a bod undebau llafur "yn cymryd rhan yn llawn ac yn briodol".*

*Mae enghreifftiau diweddar yn cynnwys:*

- *Penderfyniad i ddiddymu'r Tîm Pobl a Diwylliant*
- *Newid i'r polisi cymryd toriad gyrfa.*

***2. Mae'r baich a roddir ar gynrychiolwyr Undeb y Brigadau Tân wedi dod yn anghynaliadwy***

*Mae'r adroddiad yn tynnu sylw at secondiad Ysgrifennydd Undeb y Brigadau Tân fel tystiolaeth o gefnogaeth. Fodd bynnag, nid yw hyn yn adlewyrchu'r realiti ehangach.*

*Mae'r pwysau a roddwyd ar gynrychiolwyr Undeb y Brigadau Tân, yn enwedig yn ystod cyfnodau o newid sefydliadol, wedi bod yn sylweddol ac, ar adegau, yn afresymol. Mae hyn wedi cyfrannu at:*

- *Ddiffygiad yn sgil y pwysau ymhlith aelodau'r Pwyllgor Brigâd*
- *Mae ymddiswyddiad Cadeirydd Brigâd Undeb y Brigadau Tân yn uniongyrchol gysylltiedig â'r straen a grëwyd gan y dull presennol o ymgysylltu*
- *Mae'r cynrychiolwyr sy'n weddill yn cael eu gadael i reoli llwythi gwaith cynyddol heb ddigon o amser, gwybodaeth na chefnogaeth*

*Nid yw hyn yn gydnaws ag ymrwymiad datganedig y Gwasanaeth i "waith teg", "lles", neu*

*"bartneriaeth adeiladol".*

*Roedd y secondiad a gynigiwyd i Ysgrifennydd y Frigâd yn gyfle a groesawyd yn fawr i geisio cydweithio yn fwy effeithiol ac i leddfu'r baich. Daeth gyda'r amod o 'fynnu canlyniadau pendant'. Pan ofynnwyd am eglurder yn y mater hwn, nid oedd yn glir beth oedd yn ei olygu, ond cadarnhaodd yr ysgrifennydd presennol nad oedd a wnelo'r secondiad â chanlyniadau na llofnodi cytundebau. Yn hytrach, ei fod yn ffordd newydd o weithio. Yn anffodus, roedd y secondiad dan gysgod y swm sylweddol o waith a oedd yn gysylltiedig â chodi materion, ymchwiliadau, gwrandawiadau ac apeliadau a pharatoi at dribiwnlys cyflogaeth a'r trafodaethau sy'n cymryd llawer o amser ac yn hollti barn ynghylch y cynnig ar gyfer shifftiau 12 awr, gan gynnwys hefyd sawl patrwm shifft afrealistig ac anghynaliadwy na chafodd eu trafod ar y 224 gorsaf. Sefyllfa na chafodd ei thrin yn effeithiol, gan arwain at rali gyda thros 250 o aelodau Undeb y Brigadau Tân ym mhencadlys y gwasanaeth.*

***3. Mae'r adroddiad yn disgrifio prosesau ac arferion gorau, nid canlyniadau neu arferion gwaith gwirioneddol.***

*Mae llawer o'r adroddiad yn rhestru cyfarfodydd, gwahoddiadau a strwythurau. Fodd bynnag, nid yw bodolaeth cyfarfod yn dangos cydymffurfiaeth â'r Ddyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol.*

*Er enghraifft, mae'r adroddiad yn nodi:*

*"Gwahoddir cynrychiolwyr undebau llafur i fynychu cyfarfodydd CRMDB."*

*a*

*"Mae'r JCF yn rhoi cyfle i weithwyr fynegi eu barn ar gynigion a allai effeithio arnynt."*

*Ond profiad Undeb y Brigadau Tân yw:*

- *Mae'r fforymau hyn yn aml yn cael eu defnyddio i hysbysu, nid i ymgynghori*
- *Mae cynigion yn cael eu cyflwyno bron ar eu ffurf derfynol, nid yn agored i ddylanwad gwirioneddol*
- *Nid yw adborth yn cael ei adlewyrchu'n gyson yn y broses benderfynu*
- *Mae ymgysylltu'n fater o weithdrefn yn hytrach na chydweithredu*
- *Mae asesiadau effaith yn cael eu pennu yn hytrach na'u harchwilio ar y cyd gyda'r holl bartïon yr effeithir arnynt.*

*Mae'r Ddeddf yn gofyn am gyfranogiad sylweddol, nid bodolaeth strwythurau'n unig.*

*Y llynedd, cododd Ysgrifennydd Brigâd Undeb y Brigadau Tân gŵyn am ymddygiad ac agwedd Cadeirydd blaenorol yr Awdurdod Tân tuag at Bartneriaeth Gymdeithasol yn ystod cyfarfod a thu allan iddo gyda Chlerc yr Awdurdod, ac ni wnaed unrhyw gynnydd.*

***4. Mae Ystafelloedd Cytbwys yn enghraifft gadarnhaol - ond yn eithriad***

*Mae Undeb y Brigadau Tân yn dymuno cydnabod bod prosesau'r Ystafell Gytbwys ar gyfer Tanau Gwyllt a Llifogydd yn cynrychioli dull gwirioneddol adeiladol a chynhwysol. Mae'r sesiynau hyn wedi:*

- *Caniatáu cyfranogiad cyfartal*
- *Annog deialog agored*
- *Galluogi cyd-ddylunio datrysiadau gwirioneddol*

*Mae hyn yn dangos bod partneriaeth gymdeithasol ystyrlon yn bosibl pan fydd y Gwasanaeth yn ymrwymo iddi. Fodd bynnag, er bod y cyfranogiad a'r ymgysylltu mewn ystafell gytbwys yn gadarnhaol, nid yw'n ffordd gydnabyddedig o ymgynghori neu drafod ffurfiol ac mae'n cael ei gyflwyno felly. Mae'n gyfle gwych i staff ymgysylltu a chynnig opsiynau i siapio arferion gwaith a pholisïau wrth symud ymlaen.*

*Fodd bynnag, mae'r enghreifftiau hyn yn gwrthgyferbynnu â'r rhan fwyaf o enghreifftiau o ymgysylltu sy'n gysylltiedig â'r gweithlu, nad yw'n adlewyrchu'r un agwedd agored na'r un ysbryd cydweithredol.*

***5. Nid yw'r adroddiad yn adlewyrchu'r pryderon yr ydym wedi'u codi dro ar ôl tro***

*Mae Undeb y Brigadau Tân wedi codi pryderon yn gyson am:*

- *Wybodaeth hwyr neu annigonol*
- *Diffyg cyfranogiad cynnar*
- *Amser cyfyngedig i ymgynghori ag aelodau*
- *Penderfyniadau'n cael eu cyflwyno fel 'faits accomplis'*
- *Y pwysau cronnus ar gynrychiolwyr undebau*
- *Prosesau fel safonau proffesiynol a'r effaith y maent yn eu cael ar weithwyr, a'r diffygion a'r anghysondebau yn y prosesau ymchwilio, cynnal gwrandawiadau ac apelio.*

*Nid yw'r pryderon hyn yn cael eu cydnabod yn unrhyw le yn yr adroddiad, er gwaethaf y ffaith bod y Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i'r adroddiad blynyddol fod:*

*"Wedi'i gytuno ag undebau llafur cydnabyddedig y corff cyhoeddus neu'n cynnwys datganiad yn egluro pam na chytunwyd arno."*

*Nid yw'r adroddiad presennol yn adlewyrchu ein profiad ac felly ni ellir cytuno arno yn ei ffurf bresennol.*

***6. Yr hyn y mae Undeb y Brigadau Tân yn gofyn amdano***

*Er mwyn symud ymlaen yn adeiladol, mae Undeb y Brigadau Tân yn gofyn am:*

***a. Adolygiad ar y cyd o arferion ymgysylltu, gan archwilio'n benodol:***

- *Sut a phryd mae undebau llafur yn cymryd rhan*
- *Prydlondeb a chyflawnrwydd y wybodaeth a roddir*
- *Pa mor ddigonol yw cyfnodau ymgynghori, cytundeb clir a diffiniedig o beth sy'n ofynnol wrth ymgynghori a negodi. Dileu'r sgyrsiau unigol i drafod syniadau a'i gymryd fel ymgynghoriad / negodi.*
- *Yr effaith ar lwyth gwaith a lles cynrychiolwyr*
- *Cwblhau ffrydiau gwaith a chynigion, gan gynnwys ailstrwythuro*

***b. Ymrwymiad clir i ymgysylltu ffurfiannol, sy'n golygu:***

- *Cael ei gynnwys cyn i gynigion gael eu datblygu*
- *Rhannu gwybodaeth yn dryloyw*
- *Digon o amser ar gyfer ymgynghori ag aelodau*
- *Cyfarfodydd ffurfiol i weld unrhyw gynigion sy'n effeithio ar delerau ac amodau cyfredol neu drefniadau gweithio arferol ac ymarfer.*
- *Defnyddio cyfarfodydd negodi fel y'i bwriadwyd ac nid fel cyfle i ddiweddaru am benderfyniadau sydd eisoes wedi'u gwneud.*

***c. Siarter Partneriaeth Gymdeithasol a ddatblygwyd ar y cyd, fel y cyfeirir ato yn yr adroddiad, gyda:***

- *Disgwyliadau clir*
- *Prosesau diffiniedig*
- *Mecanweithiau atebolrwydd*

***d. Cydnabod y pwysau ar gynrychiolwyr Undeb y Brigadau Tân, gan gynnwys:***

- *Cyfleuster/amser rhyddhau priodol*
- *Amddiffyniadau o ran llwyth gwaith*
- *Cymorth i atal diffygiad*

***Casgliad Undeb y Brigadau Tân***

*Mae Undeb y Brigadau Tân yn parhau i fod yn ymrwymedig i weithio ar y cyd â'r Gwasanaeth er budd diogelwch diffoddwyr tân, lles y gweithlu, a chyflwyno gwasanaethau cyhoeddus*

*effeithiol. Rydym hefyd yn cydnabod y newid tuag at weithio mwy gonest a thryloyw, a fydd, gobeithio, yn arwain at wasanaeth gwell i'r cyhoedd a rhanddeiliaid. Mae'r ymgysylltiad â'r PST newydd hyd yma wedi bod yn addawol ac yn rhoi gobaith gwirioneddol am bartneriaeth gymdeithasol effeithiol ar gyfer y dyfodol. Fodd bynnag, mae partneriaeth gymdeithasol wirioneddol yn gofyn am fwy na phresenoldeb mewn cyfarfodydd; mae'n gofyn am gyfranogiad cynnar, tryloywder, parch at lais y gweithlu, ac ymrwymiad i wneud penderfyniadau ar y cyd drwy ymgynghori a phrosesau cychwynnol fel ei fod yn trosi i'r weithred a fwriadwyd.*

*Rydym yn gobeithio y bydd y Gwasanaeth yn gweithio gyda ni i fynd i'r afael â'r pryderon a amlinellir uchod ac i adeiladu partneriaeth gryfach, fwy dilys yn y dyfodol.*

**Casgliad**

Mae'r Gwasanaeth yn parhau i fod wedi ymrwymo i feithrin perthynas waith agos ag Undebau Llafur ynghylch gwneud penderfyniadau strategol a bydd yn parhau i sicrhau ei ymrwymiad parhaus i gynnal sianeli cyfathrebu rheolaidd a thryloyw, trwy amrywiaeth o fecanweithiau ymgynghori a thrafod sydd eisoes wedi'u sefydlu.



